Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

# Vaccines and pork gelatine

## This leaflet explains how and why pork gelatine is used in a small number of vaccines.

**It offers information about the 3 vaccines that contain this product and the alternatives that are available.**

### What is pork gelatine?

Gelatine is a substance found in animal collagen. Collagen is a protein that helps build tendons, ligaments, bones and cartilage. Pork gelatine comes from collagen in pigs.

### Why is pork gelatine used in vaccines?

Gelatine is a stabiliser used in certain forms of medicine, such as capsules and some vaccines. Stabilisers make sure vaccines are safe and effective while they are being stored. Pork gelatine in vaccines is different from that in foods, as it has been made pure and turned into tiny particles.

### Why can't vaccines be made with other stabilisers or other types of gelatine?

The people who make vaccines test a wide range of stabilisers so they can choose the best one. This testing can take many years of experiments and clinical studies. Once a stabiliser is chosen, it is rarely changed, as the testing process would have to be repeated. This means that it is unlikely that pork gelatine will be removed from these 3 vaccines, as it is a key ingredient.

### Which vaccines contain pork gelatine?

There are around 20 vaccines in the routine immunisation programme for Wales. Only 3 of these vaccines contain pork gelatine:

- Fluenz® – a nasal spray vaccine that protects children against flu.
- MMR VaxPro® – a vaccine that protects against measles, mumps and rubella (MMR).
- ProQuad® – a vaccine that protects against measles, mumps, rubella and varicella (chickenpox) (MMRV).

### What gelatine-free alternatives are available?

**Flu -** The Fluenz® nasal spray vaccine is the recommended flu vaccine for most children and young people. If you decide you do not want your child to have the nasal spray, they can have an injection instead. This does not contain pork gelatine. You can highlight this on your consent form.

**MMR -** In the UK we have two types of MMR vaccine – Priorix® and MMR VaxPro®. Priorix® does not contain pork gelatine and is as safe and effective as MMR VaxPro®.

**MMRV -** In the UK we have two types of MMRV vaccine – Priorix Tetra® and ProQuad®. Priorix Tetra® does not contain pork gelatine and is as safe and effective as ProQuad®.

**If you want the gelatine-free alternative, contact the person offering the vaccine as it may need to be ordered. You can also talk to your health visitor, school nurse, immunisation team or GP surgery about how to get it.**

## What is the view of the faith communities?

The UK Health Security Agency (UKHSA) has consulted the Kashrus and Medicines Information Service. They said: 'It should be noted that according to Jewish laws, there is no problem with pork or other animal-derived ingredients in non-oral products. This includes vaccines, including those administered via the nose, injections, suppositories, creams and ointments.'

The British Fatwa Council has looked at the evidence surrounding pork gelatine. They have allowed it for use because the gelatine used in vaccines is a pure product. This means that it is no different to gelatine from any other animal.

The UKHSA accepts that there is diversity within British Muslim and Jewish communities. Some groups may consider medicines containing pork gelatine to be forbidden. These medicines may be taken when there are no other options. They can also be taken when the medicine is life-saving.

When making a decision, consider the evidence. Think about the advantages and disadvantages, and what alternatives might be available.

The information in this leaflet is correct at the time of publication.
For the most up-to-date information, please visit **phw.nhs.wales/vaccines**

## Further information

To see the routine immunisation schedules for Wales, visit **phw.nhs.wales/CompleteSchedule**

To learn more about any of the vaccines mentioned in this leaflet, go to **medicines.org.uk/emc** (external site). Type the vaccine name into the search box to see details about the ingredients, possible side effects, and the patient leaflet.

Scan me to go to the Public Health Wales website

Version 4 | February 2026
Public Health Wales is the national public health agency in Wales. We work to protect and improve health and well-being and reduce health inequalities for the people of Wales.
© Public Health Wales NHS Trust (with acknowledgment to UK Health Security Agency)
ISBN 978-1-83766-812-0

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

# Brechlynnau a gelatin moch

**Mae'r daflen hon yn esbonio sut a pham y defnyddir gelatin moch mewn nifer fach o frechlynnau.**

**Mae'n rhoi gwybodaeth am y 3 brechlyn sy'n cynnwys y cynnyrch hwn a'r dewisiadau eraill sydd ar gael.**

## Beth yw gelatin moch?

Mae gelatin yn sylwedd a geir mewn colagen anifeiliaid. Protein yw colagen sy'n helpu i adeiladu tendonau, ligamentau, esgyrn a chartilagau. Daw gelatin moch o golagen mewn moch.

## Pam mae gelatin moch yn cael ei ddefnyddio mewn brechlynnau?

Mae gelatin yn sefydlogydd sy’n cael ei ddefnyddio mewn rhai mathau o feddyginiaeth, fel capsiwlau a rhai brechlynnau. Mae sefydlogyddion yn sicrhau bod brechlynnau'n ddiogel ac yn effeithiol tra'u bod yn cael eu storio. Mae gelatin moch mewn brechlynnau yn wahanol i'r hyn a geir mewn bwydydd, gan ei fod wedi'i buro a'i droi'n ronynnau bach.

## Pam na ellir gwneud brechlynnau gyda sefydlogyddion eraill neu fathau eraill o gelatin?

Mae'r bobl sy'n gwneud brechlynnau yn profi ystod eang o sefydlogyddion er mwyn dewis yr un gorau. Gall y broses brofi hon olygu bod arbrofion ac astudiaethau clinigol yn cael eu cynnal dros nifer o flynyddoedd. Pan fydd sefydlogydd wedi'i ddewis, ni fydd yn cael ei newid yn aml gan y byddai'n rhaid ailadrodd y broses brofi. Mae hyn yn golygu nad yw’n debygol y bydd gelatin moch yn cael ei dynnu o'r 3 brechlyn hyn, gan ei fod yn gynhwysyn allweddol.

## Pa frechlynnau sy'n cynnwys gelatin moch?

Mae tua 20 o frechlynnau yn y rhaglen imiwneiddio rheolaidd ar gyfer Cymru. Dim ond 3 o'r brechlynnau hyn sy'n cynnwys gelatin moch:

- Fluenz® – brechlyn chwistrell trwyn sy'n amddiffyn plant rhag y ffliw.
- MMR VaxPro® – brechlyn sy'n amddiffyn rhag y frech goch, clwy'r pennau a rwbela (MMR).
- ProQuad® – brechlyn sy'n amddiffyn rhag y frech goch, clwy'r pennau, rwbela a farisela (brech yr ieir) (MMRV).

## Pa ddewisiadau eraill sydd ar gael nad ydynt yn cynnwys gelatin?

**Y Ffliw -** Y brechlyn chwistrell trwyn Fluenz® yw'r brechlyn ffliw a argymhellir ar gyfer y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc. Os byddwch yn penderfynu nad ydych am i'ch plentyn gael y chwistrell trwyn, gall gael pigiad yn lle hynny. Nid yw hwn yn cynnwys gelatin moch. Gallwch dynnu sylw at hyn ar eich ffurflen gydsynio.

**MMR -** Mae gennym ddau fath o frechlyn MMR yn y DU – Priorix® ac MMR VaxPro®. Nid yw Priorix® yn cynnwys gelatin moch ac mae yr un mor ddiogel ac effeithiol ag MMR VaxPro®.

**MMRV -** Mae gennym ddau fath o frechlyn MMRV yn y DU – Priorix Tetra® a ProQuad®. Nid yw Priorix Tetra® yn cynnwys gelatin moch ac mae yr un mor ddiogel ac effeithiol â ProQuad®.

**Cysylltwch â’r unigolyn sy’n cynnig y brechlyn i chi os ydych chi am gael y dewis arall nad yw’n cynnwys gelatin gan y gallai fod angen ei archebu. Gallwch hefyd siarad â'ch ymwelydd iechyd, nyrs ysgol, tîm imiwneiddio neu bractis meddygon teulu ynglŷn â sut i'w gael.**

## Beth yw barn cymunedau ffydd?

Mae Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (UKHSA) wedi ymgynghori â Kashrus a’r Gwasanaeth Gwybodaeth am Feddyginiaethau. Dywedon nhw: 'Yn ôl cyfraith Iddewig, dylid nodi nad oes problem gyda defnyddio cynhwysion sy'n deillio o foch neu anifeiliaid eraill mewn cynhyrchion nad ydynt yn cael eu cymryd drwy’r geg. Mae hyn yn cynnwys brechlynnau, yn cynnwys y rhai sy'n cael eu rhoi drwy'r trwyn, pigiadau, tawddgyffuriau, hufenau ac elïau.'

Mae Cyngor Fatwa Prydain wedi edrych ar y dystiolaeth ynghylch gelatin moch. Mae’r Cyngor wedi caniatáu iddo gael ei ddefnyddio gan fod y gelatin a ddefnyddir mewn brechlynnau yn gynnyrch pur. Golyga hyn nad yw'n wahanol i gelatin sy’n dod o anifeiliaid eraill.

Mae'r UKHSA yn derbyn bod amrywiaeth o fewn cymunedau Mwslimaidd ac Iddewig Prydain. Efallai y bydd rhai grwpiau'n ystyried bod meddyginiaethau sy'n cynnwys gelatin moch yn waharddedig. Gellir cymryd y meddyginiaethau hyn pan nad oes opsiynau eraill ar gael. Gellir eu cymryd hefyd pan fydd y feddyginiaeth yn achub bywyd.

Wrth wneud penderfyniad, ystyriwch y dystiolaeth. Meddyliwch am y manteision a'r anfanteision, a pha ddewisiadau eraill a allai fod ar gael.

Mae’r wybodaeth yn y daflen hon yn gywir ar adeg ei chyhoeddi.
I gael yr wybodaeth ddiweddaraf, ewch i **icc.gig.cymru/brechlynnau**

## Rhagor o wybodaeth

I weld yr amserlenni imiwneiddio rheolaidd ar gyfer Cymru, ewch i **icc.gig.cymru/AmserlenGyflawn**

I ddysgu mwy am unrhyw un o'r brechlynnau a grybwyllir yn y daflen hon, ewch i **medicines.org.uk/emc** (safle allanol, Saesneg yn unig). Teipiwch enw'r brechlyn yn y blwch chwilio i weld manylion y cynhwysion, sgil-effeithiau posibl, a'r daflen i gleifion.

Sganiwch fi i fynd i wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru

Fersiwn 4 | Chwefror 2026
Iechyd Cyhoeddus Cymru yw asiantaeth iechyd y cyhoedd cenedlaethol Cymru. Rydym yn gweithio i amddiffyn a gwella iechyd a llesiant a lleihau anghydraddoldebau iechyd ar gyfer pobl Cymru.
© Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru (gyda chydnabyddiaeth i Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU)
ISBN 978-1-83766-813-7